ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Ar gyfer y cynnig i gynyddu lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg trwy ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol o 1361 i 1660 o leoedd.

Y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau
Cyngor Bro Morgannwg

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais

Cysylltwch â ni ar 01446 709727 i drefnu hyn.

Cynnwys	Tudalennau
1. Cyflwyniad	3
2. Y Cyd-destun Cenedlaethol	3
3. Y Cyd-destun Polisi Lleol	3-4
4. Effaith ar y Gymuned	4
Dalgylch	4-6
Cyfleusterau/Gweithgareddau Presennol yr Ysgol	6-7
Materion Traffig/Llwybrau Cerdded	7-8
5. Casgliad	8

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn cynnig darparu cyfleusterau newydd i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei champws presennol i ateb y galw cynyddol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ledled Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor, ochr yn ochr ag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru trwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn cynnig buddsoddi £19 miliwn mewn rhaglen uchelgeisiol o waith adnewyddu a gwaith i godi adeiladau newydd. Trwy'r buddsoddiad sylweddol hwn yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, bydd y Cyngor yn sicrhau ein bod yn mynd y tu hwnt i'n dyletswydd gyfreithiol i ddarparu lleoedd mewn ysgolion i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Bydd y cynnig hwn:

- Yn ehangu'r adran uwchradd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg o 1,360 i 1,660 o leoedd i ateb y galw cynyddol am leoedd. Bydd y nifer derbyn yn yr adran uwchradd yn cynyddu o 189 i 240.

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu'n seiliedig ar dybiaeth y bydd cyllid i fuddsoddi yn adeiladau'r ysgol yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Os na fydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael maes o law, efallai na fydd yn bosibl cyflawni pob un o'r prosiectau adeiladu ac adnewyddu yr ydym yn dymuno'u cyflawni. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen adolygu'r opsiynau buddsoddi a'n prif flaenoriaeth fydd darparu'r cyfleusterau ychwanegol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y disgyblion ychwanegol.

2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Wrth ystyried cynigion mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau yn gyntaf neu raglenni sy'n eu holynu.

3. Y Cyd-destun Polisi Lleol

Gan adleisio'r polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2016-20 i wireddu gweledigaeth gref, sef – **'Cymunedau Cryf â dyfodol disglair'**.
i
Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni'r amcan ar gyfer 'Bro Uchelgeisiol' gan godi safonau cyflawniad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas ar gyfer y diben sy'n diwallu anghenion addysg yn yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfleoedd gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

4. Effaith ar y Gymuned

Y dalgylch

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ysgol gymunedol 3-19 cyfrwng Cymraeg sydd ag ardal y mae'n ei gwasanaethu, y cyfeirir ati fel y dalgylch. Mae gan yr ysgol ddau ddalgylch – y naill ar gyfer yr adran gynradd a'r llall ar gyfer yr adran uwchradd. Mae'r adrannau o fewn yr ysgol yn gallu derbyn disgyblion sy'n byw o fewn dalgylchoedd yr ysgol ac mae'n rhaid i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r glaw parhaus yma. Mae gan rieni hawl i fynegi dewis o blaid unrhyw ysgol. Mae dewis rhieni'n effeithio i raddau helaeth ar nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion ac mae cryn dipyn o symudiad gan ddisgyblion yn amlwg rhwng dalgylchoedd ysgolion. Mae'r adran uwchradd yn darparu addysg Gymraeg ar gyfer plant ledled Bro Morgannwg.

Mae'r tabl canlynol yn dangos effaith dewis rhieni ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae lle i 1,361 o ddisgyblion yn yr ysgol 3-19 ar y cyfan, sy'n cynnwys 210 o leoedd cynradd.

Ysgolion a fynychir gan blant sy'n byw yn y dalgylch ym mis Ionawr 2016									
Ysgol Ddalgylch	**Poblogaeth y Dalgylch**		**Ysgol Gyfun y Barri**	**Bryn Hafren**	**Y Bont-faen**	**Llanilltud Fawr**	**Ysgolion Penarth**	**Sant Richard Gwyn**	**Bro Morgannwg**
Yr adran uwchradd	7,649		963	946	1,212	859	2,132	720	817

Tabl 1 – Dadansoddiad o'r galw am leoedd uwchradd. Bro Morgannwg ar sail CYBLD Ionawr 2016

	Ysgolion a fynychir gan blant sy'n byw yn y dalgylch ym mis Ionawr 2016									
Ysgol Ddalgylch	**Poblogaeth y Dalgylch**		**Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg**	**Ysgolion cynradd Cymraeg eraill yn y Barri**	**Ysgolion cynradd Cymraeg eraill**	**Ysgol Gynradd Colcot**	**Ysgolion Saesneg eraill yn y Barri**	**Ysgol fabanod ac ysgol iau Babyddol Sain Helen**	**Ysgolion Penarth**	**Y Fro Wledig**
Yr adran gynradd	664		48	77	2	182	288	38	17	12

Tabl 2 – Dadansoddiad o'r ysgolion cynradd a fynychir ar sail CYBLD 2016

Dadansoddiad o ddalgylch Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg sy'n gwasanaethu ardal gyfan Bro Morgannwg yn achos disgyblion oed ysgol uwchradd sydd am gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae 300 (16.7%) o leoedd gwag yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg ac yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae 96.2% o ddisgyblion ar gyfartaledd wedi trosglwyddo o'r 7 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Ym mis Ionawr 2016 roedd 7,649 o ddisgyblion oed ysgol uwchradd yn byw yn nalgylch dynodedig yr ysgol, ac mae 817 (10.7%) o'r rheiny wedi dewis addysg gyfrwng Gymraeg. Ar hyn o bryd mae lle i 1151 o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu Colcot a'r ardal o amgylch ar gyfer plant oed ysgol gynradd. Ym mis Ionawr 2016 roedd 664 o blant yn byw yn nalgylch yr ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd. O'r nifer yma, dewisodd 127 o blant gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, o gymharu â'r lle i 150 o blant sydd yn yr ysgol. Bydd capasiti'r ysgol yn codi i uchafswm o 210 erbyn mis Medi 2017, pan fydd yr holl grwpiau blwyddyn yn eu lle.

Ar hyn o bryd mae ardal ddalgylch yr ysgol ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn cynyrchu digon o ddisgyblion i ddiwallu'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg ar ôl caniatáu ar gyfer y galw cyfrwng Saesneg ac Enwadol.

Ar ôl caniatáu ar gyfer y galw cyfrwng Saesneg ac enwadol, mae ardal ddalgylch yr ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd yn cynhyrchu lleoedd digonol i ddisgyblion i ddiwallu'r galw am addysg gynradd gyfrwng Gymraeg fel a ganlyn;

- 150 o leoedd cyfrwng Cymraeg (210 o leoedd erbyn mis Medi 2017) yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
- 315 o leoedd i ateb y galw am addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Colcot; a
- Galw am addysg enwadol yn yr ardal yn cael ei ateb gan Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau Babyddol Saint Helen (308 o leoedd) ac Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru (210 o leoedd).

Ni fydd newidiadau i ffiniau'r naill ddalgylch na'r llall o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Bydd dalgylchoedd yr ysgol yn dal i fod â digon o ddisgyblion i gynnal y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Cyfleusterau/Gweithgareddau Presennol yr Ysgol

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion oed ysgol uwchradd y tu allan i oriau ysgol:

- Clybiau gwaith cartref
- Clybiau chwaraeon
- Yr Urdd
- Cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Clybiau adolygu
- Gweithgareddau perfformio
- Rhaglen 5x60 i'r disgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol a gweithgaredd corfforol yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn gweithio gyda Menter Bro Morgannwg i ehangu defnydd o'r Gymraeg trwy greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'r gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig clwb brecwast i ddisgyblion oed cynradd o 8.00am tan 8.45am.

Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau cryf â'r Cylch Meithrin Ti a Fi lleol (Cylch Meithrin Bethesda), cylch chwarae preifat cyfrwng Cymraeg yn y gymuned, sy'n darparu cyfleuster di-fwlch i'r disgyblion meithrin. Mae'r plant yn cael cyfle i fynychu'r uned feithrin yn yr ysgol ar gyfer sesiwn y bore/prynhawn, a mynychu gofal di-fwlch sy'n cael ei ddarparu gan y Cylch Ti a Fi yn y bore/prynhawn.

Mae gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd yn cael eu darparu gan yr ysgol a'r Urdd, gyda phwyslais ar berfformio a sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnir clybiau gwyliau ar gyfer y plant yn ystod gwyliau'r ysgol gan Fenter Bro Morgannwg.

Mae'r ysgol yn darparu dosbarthiadau magu plant i rieni, mewn cydweithrediad â theuluoedd yn gyntaf.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal Clwb Ti a Fi, sydd ar agor i'r gymuned leol, i blant o dan oed y meithrin bob prynhawn dydd Iau.

Mae'r ysgol yn cynnig ei chyfleusterau i sefydliadau lleol fel a ganlyn;

- Dosbarthiadau Cymraeg
- Dosbarthiadau Addysg Oedolion
- Defnydd o'r cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau côr a seremonïau gwobrwyo

- Cyfleusterau chwaraeon i glybiau lleol
- The Barn
- Ffeiriau Gyrfaoedd

Y bwriad yw bod yr holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a'r gymuned yn parhau, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

Materion traffig/Llwybrau cerdded

Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion. Bydd safle'r ysgol yn dal i fod yn weithredol dan y cynnig.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw yn bellach na phellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant o oedran meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."

Ni fydd y llwybrau cerdded diogel i ysgolion a ddefnyddir ar gyfer asesu cludiant am ddim i'r ysgol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Nid oes unrhyw effaith o ganlyniad i'r cynnig hwn ar y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael i ddisgyblion gael mynediad at yr ysgol.

Nid yw cludant i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n muynychu'r adran Gynradd ar hyn o bryd ac ni fydd hyn yn newid.

Ar hyn o bryd mae cludiant am ddim i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n mynychu'r adran uwchradd os ydynt yn byw dros 3 milltir o'r ysgol, a bydd hynny'n parhau. Ni fydd newidiadau i'r cymhwyster i dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae asesiadau cychwynnol o'r traffig yn dynodi y bydd cynnydd yn y traffig sy'n cludo disgyblion i ac o'r ysgol wrth i niferoedd y disgyblion gynyddu. Er mwyn lliniaru'r cynnydd hwn mewn traffig cynigir y bydd mynedfa newydd i'r ysgol yn cael ei chreu o Port Road gan groesi trwy gampws Ysgol Gyfun y Barri. Bydd y cynnig yn darparu trefniadau gwell ar gyfer parcio ceir i gefnogi'r cynnydd mewn niferoedd yn y dyfodol. Mae'r isadeiledd cerdded a beicio i gyrraedd yr ysgol yn dda.

Bydd goblygiadau o ran traffig a chludiant yn cael eu cynnwys fel rhan o'r asesiad o gludiant sy'n ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu os bydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu.

Mae diogelwch plant o'r pwys mwyaf ac wedi cael ei ystyried cyn cyflwyno'r cynnig i ehangu'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod o newid i ddatblygu cynlluniau teithio er mwyn sicrhau bod y newid yn tarfu gyn lleied â phosibl ar y disgyblion.

5. Casgliad

Bydd ehangu'r cyfleusterau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn darparu cyfleusterau helaeth a chyfleoedd amrywiol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn ogystal ag ar gyfer y gymuned leol yn ei chyfanrwydd.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion y tu hwnt i'r diwrnod ysgol gydag asiantaethau'n rhoi cymorth i ddisgyblion trwy gydol y dydd. Mae'r ysgol yn trefnu bod ei chyfleusterau ar gael i'r gymuned leol ac mae hithau yn ei thro'n defnyddio cyfleusterau cymunedol megis eglwysi a chyfleusterau chwaraeon lleol yn ystod y flwyddyn ysgol. Cynigir, fel lleiafswm, y bydd yr holl gyfleusterau presennol ar gyfer rhieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau pan fydd cyfleusterau'r ysgol yn cael eu hymestyn.

Bydd asesiad o gludiant a fydd yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio'n amlygu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r priffyrdd a all fod yn ofynnol yn sgîl y cynnig.

Y casgliad o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y bydd y cynnig i ehangu cyfleusterau Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei champws presennol:

- yn arwain at effaith gadarnhaol ar y gymuned. Ni fydd unrhyw effaith ganfyddadwy ar gyfleusterau cymunedol na lleol presennol yn yr ardal. Bydd y cynnig yn gwella'r cyfleusterau ac yn arwain at fwy o gyfleusterau i'r gymuned leol a phlant ar y ddau gampws

- yn darparu amgylcheddau dysgu gwell yn yr ysgol ar gyfer plant ac yn mynd i'r afael â materion o ran adeiladau yn yr ysgolion presennol. Gallai cyfleusterau cymunedol gael eu gwella o ganlyniad i gynyddu'r cyfleusterau ar y campws.